## STRYD LLYN

**1**

**PRESENNOL / POBOL IFANC A PHLANT**

IWAN Fish a Chips.

BETSAN Bobol yn siarad.

IWAN Plant yn chwarae.

BETSAN Sŵn sigyls.

IWAN Ogla melys.. fêps..

BETSAN Hogia'n hongian o gwmpas.

IWAN A polîs yn dwad. Sirens. Sigyls yn watsio.

BETSAN Sigyls yn deifio.

IWAN Sigyls yn dalld y sgôr.

BETSAN Smiths.. Boots.. O Law i Law

IWAN Greggs. American Candy. Works.

BETSAN Gnomes yn Stermat!

IWAN Caru Kebabs. Factory Shop.

BETSAN A Timpsons.

IWAN Plant yn chwarae.

BETSAN Bobol yn siarad

IWAN Bobol yn hel.

BESTAN Pool St.

IWAN Stryd Llyn.

BETSAN Lle gwinadd *a* lle gwallt.

IWAN A sigyls.

BETSAN Llygod mawr efo wings.

IWAN Tyd, â'n ni fyny am dro at y ffowntain i edrach lawr stryd.

BETSAN Isda ar y ffowntên a sbio ar TikTok efo mêts.

IWAN Tan ma'r sigyls yn dwad.

BETSAN I stêrio arna ni.

IWAN Cofis a sigyls.

BETSAN Sigyls Cymraeg!

IWAN Hilariys!

**2 COFIO**

BETSAN I fi, Stryd Llyn *ydi* stryd Gaernarfon. Pan o'n i'n blentyn, fanno oedd ***y*** stryd. Stryd y Plas di bob dim rwan ond Stryd Llyn o'dd' i. A dydwi i ddim yn licio pobol yn lladd ar Stryd Llyn! Be dwi'n gofio, yn enwedig Dolig de, dwi'n cofio dod i dre hefo Dad a wedyn mi oeddan ni'n parcio yn y maes parcio fflat a cerddad fyny'r allt fach i Stryd Llyn ag oedd na fand yn chwara. Awyrgylch lyfli a wedyn cerddad fyny a pobol yn rhoid rw bres i chdi fatha rw ddwy geiniog ac o'n i wrth y modd yn mynd. Odd gin ti siopa iawn. Woolworths, Sidneys, Smiths. Naethon nhw dynnu lot o siopa i lawr i godi'r lôn newydd.

**3**

IWAN 25 Pool St oedd *y* siop - Jones Outfitters wel naci Tailors and Outfitters, Gentlemen's Outfitters. Odd hi'n siop ddynion uchelael hefo drors yn agor. O'dd Taid yn deiliwr ac o'dd o'n mynd rownd ffermydd a lot yn deud 'da ni'n cofio'ch Taid yn dwad â'i fachine ar i gefn i neud siwtia.' Eniwe, mi brynodd le ar Stryd Llyn yn diwadd a fo ddaru agor y siop. Dwi'n cofio'r cutting room er bo fi'n llai na 5 achos oedd o'n marw adag hynny. A dwi'n cofio'r sialc a Mam yn cael siwt nath 'i drysori. Oedd na gownteri gwydr ac ogla dillad newydd. Adag hynny oedd dillad plant yn fudur - ogla sialc o'r ysgol. Ond dwi'n cofio'r ogla glân yn iawn.

**4**

BESTAN Odd gin ti HR Phillips, siop posh efo dillad priodas. Cofio mam yn dewis menyg yno.. llwyth o ddroria pren neis.. a genod yn serfio chi mewn menyg.

IWAN EB Jones yn delifro bwyd. Dwi'n cofio beicia efo basgedi arnyn nhw.
Odd gin ti Paragon yn top stryd. Ag odd y lôn yn sblitio fa'na, lôn Llanbêr a lôn Port.

BETSAN Anodd meddwl sut o'dd dybl deckars yn mynd i fyny Stryd Llyn ac yn pasio'i gilydd dydi?

IWAN Fu's i'n gweithio'n Woolworths pan o'n i'n hogyn, ac yn becws drws nesa ar fora Sadwrn. Sellway o'dd hwnna d'wa? O'dd mam yn gweithio 'na. Cacan wy dda i ga'I 'no.

BETSAN A Siop Amen a siop Johnny...

IWAN Call Again!

BETSAN Achos bo na'm byd yn barod!

IWAN A tŷ tafarn yn gwaelod. Y Britannia! Odda nhw'n llenwi poteli yn fanno. Sdi brandy. Cofio mynd yno'n blentyn i nôl peth i Nain a goro gwitsiad tu allan a'r boi yn siarad Susnag a fi'm yn dallt be odd o'n ddeud.

BETSAN R'unig Susnag o'dd gyno ni o'dd yes no yes no!

IWAN Cymraeg o'dd pawb yn siarad r'adag hynny.

BETSAN O'dd na le crwyn wrth ymyl y lle parking 'wan.

IWAN A Siop Ros – fruit a fej.

BETSAN O'dd na brysurdeb ar y stryd, doedd?

IWAN Sa'r hen bobol yn troi yn 'u beddi yn gweld hi fatha ma hi heddiw 'ma.

BETSAN A Siop lectrical wrth ymyl Woolworths.

IWAN A Siop gwerthu organs – ga'th i demolitio i neud lle i Boots do.

BETSAN Dwi'n trio cofio lle arall? Meg Mostyn y chemist. O, 'na chi siop hardd.

IWAN Siop Mrs Thomas wedyn. Gwerthu cwningod a ffesants, a rheiny'n hongian yn ffenast.

BETSAN Papes, fish and Chips! Ciws yn fanno a cwcio nhw efo tân agorad. Odda chdi'n weld o'n rhoi glo mewn. Fish gora yn yr area. O'n i'n gweithio yno a stêm yn codi a mynd i ngwallt i.

IWAN Siop Kirk open all hours a diwrnod Dolig ag odd gyno fo bob dim, siwgr a te.

BETSAN Ag odd gin ti Osa Hairdresser. Lle smart. Ogla perm mawr.

IWAN Siop Becws Bach yn top ac adag Ddolig odd pobol yn mynd â twrcis oedd rhy fawr i roid yn popdy i gwcio.

BETSAN A wedyn o'dd Gruffudd Jones i fyny wedyn, lle ma'r siop gardia' heddiw. Gwerthu lino. Dwi'n cofio mynd yna. Rhesi o roliau lino yn mynd i fyny ac i lawr. A dwi'n cofio ogla'r lino. O'dd pawb efo lino. Do'dd na'm sôn am garpedi wall to wall.

**5**

BETSAN Hogan o dre dwi. O'n i wrth y modd efo Stryd Llyn, stryd neis. New St o'n i'n byw ac o'dd plant yn cal mynd i bob man bryd hynny. O'dd Stryd Llyn yn mynd reit fyny at r'Eagles a becws yn top. Fanno o'n i'n licio. Ogla bara. Yn is lawr lo'dd gin ti grosar, wedyn siop ddillad grand - hetia a dillad capal i'r buddugs. Wedyn ti di dod at lle ma British Legion rwan de a mi odd na siop petha sgota. Wedyn yn is lawr yn Uxbridge Square o'dd na dri tŷ bach del lle ma'r lôn newydd. Ma nhw di mynd rwan ond oedd gynnyn nhw erddi bach yn ffrynt a gin i go plentyn o bobol yn pwyso ar y giat i sgwrsio.

IWAN A mi o'dd y lôn yn mynd i fyny ffor'na cyn i'r lôn wirion 'na ga'l i hadeiladu.

BETSAN Nath y lôn hollti'r dre yn 'i hannar. Torri calon y dre mewn ffor'. Dim rheswm iddo fo o gwbwl. Torri ar draws teuluoedd o'dd yn arfar bod o fewn cyrra'dd i'w gilydd.

IWAN Ofnadwy de.

BETSAN O'dd na ddynas efo jewels yn gweithio yn siop Fish a Chips Mr Ellis, ac oeddan *nhw'n* mynd ar wylia dramor.. pobl neis.

IWAN Nôl chips hefo powlan a pawb yn swancio mynd â powlan pyrex pan ddoth pyrex allan.

BETSAN Ar nos Wenar odda ni'n cal mynd fyny grisia i ista lawr ag os odd gen ti ddim pres odda chdi'n cal chips mewn côn a torri'r gwaelod allan a'i sugno fo.

IWAN Ag oedd y siop motobeics lle ma'r siop gwynab na rwan. O'dd na fotobeics yn bob mân tu allan a wedyn o'dd gin ti siop gwerthu pianos cyn ti gyrradd tŷ capal Salem. Strauss oedd hi ia? A mi oddan nhw'n gwerthu miwsig.

BETSAN Oedd na bump becws yn Stryd Llyn adag hynny.

IWAN A Woolworths! Bwysig i ni blant. Yn arbennig adag Rhyfal. Dwi'n cofio Jaco mwncis ar werth yn Woolies. Rhesi ar resi o'nyn nhw. A ges i un. Ma Jaco mwnci gin i o hyd!

BETSAN Ges i mrasiyr cynta yno. Un gwyn efo bloda bach pinc. A meddwl mod i mor grown yp!

IWAN Siop Jones Brothers yn gwerthu petha dynion…

BETSAN Wedyn Caffi Continental ac oedd na chap tal a golygus - sdi Italian - yn gweithio yna. Dyna chdi le glân! O'dd petha'n sgleinio ac ogla'r coffi yn dy dynnu di mewn.

IWAN A sdolion fatha mewn ffilms o Merica.

BETSAN O'dd o'n lyfli deud gwir! Stolion turquoise a stainless steel a teils y llawr yn lân. Dyna oedd yn dy drawo di, bob dim mor lân. O'dd gynnyn nhw ham rôls werth agor dy geg amdanyn nhw.

IWAN A chicken soup ac unrhyw soup sa chdi'n licio. Tin soup odda nhw - Heinz.

BETSAN A'r sŵp yn cael 'i gnesu efo stêm machine coffi.

IWAN O, o'dd y bwyd yn neis.

BETSAN Blas da arno fo.

IWAN Doedda ni'm yn cal nialwch adag yna.

BETSAN Odd gynna chdi'm cwpwrdd sbâr- odda chdi'n byw o ddiwrnod i ddwrnod a rhedag lawr i Isaac Parry i nôl be 'dda chdi isio.

IWAN Dyddia da. O'dda chdi'm isio mynd o dre. O'dd bob dim yma.

BETSAN A pobol dre oedd yn rhedag dre sdalwm.

IWAN Ti'n meddwl mai'r un gwylanod sydd yma heddiw?

BETSAN Y gwylanod! Nhw sy pia Caernarfon. Ma nhw yma ers canrifoedd.

IWAN Stryd Llyn ma nhw'n licio ora fyd de!

BETSAN Ma nhw fatha Roberts & Owen jewellers - yma o hyd!

**6 PRESENNOL**

BETSAN A'n ni i Greggs?

IWAN Sosij rôl?

BETSAN A cryms i sigyls.

IWAN Ia, ia?

IWAN Plant yn chwara.

BETSAN Bobol yn siarad.

IWAN Bobol yn hel.

IWAN Pool Street.

BETSAN "Ar i ora," medda'r sigyls.

IWAN Teimlo dy gynefin.

BETSAN Y Cofis a sigyls Cymraeg Stryd Llyn.